**Lesley Griffiths AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref IM/LG/01653/18

Rt Hon Claire Perry MP
Minister of State for Energy and Clean Growth
1 Victoria Street
London
SW1H 0ET

mpst.perry@beis.gov.uk

Medi 2018

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Awst ynghylch ymateb Llywodraeth y DU i Ran B o'r ymgynghoriad ar gynllun cymorth ynni adnewyddadwy'r Contractau Gwahaniaeth.

Roedd fy ymateb i Ran A wedi nodi sut y mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod yna gyfleoedd gwell i wella maint prosiectau ac i leihau costau yn sylweddol na defnyddio ynysoedd anghysbell. Mae dal i fod digon o adnoddau gwynt ar gael ar dir mawr y DU nad ydynt yn cael eu defnyddio. Technoleg gwynt ar y tir yw un o'r ffyrdd rhataf o gynhyrchu trydan ar raddfa fawr yn y DU. Byddai ailgyflwyno cymorth ar gyfer technoleg gwynt, ynghyd â buddsoddi mewn gwella'r grid trydan yn ffordd lawer mwy cost-effeithiol o sicrhau capasiti am y pris isaf.

Felly, byddwn yn eich annog i ailagor Pot 1 o dan rownd ddyrannu nesaf y Contractau Gwahaniaeth er mwyn cynnwys prosiectau gwynt ar dir mawr y DU. Credwn fod modd gwneud hynny am gost isel iawn, neu'n wir heb unrhyw gymhorthdal o gwbl. Hefyd, ysgrifennais ar y cyd â Gweinidogion yr Alban yn ddiweddar at yr Ysgrifennydd Gwladol i ofyn am ymrwymiad rheolaidd at ocsiynau pot 2 *a* phot 1. Byddwn hefyd yn gofyn am eglurder mewn perthynas â'r cyllid a roddir tuag at brosiectau ynni'r môr. Mae'n adeg hollbwysig i'r diwydiant ac mae angen eglurder gan Lywodraeth y DU ynghylch y cymorth ariannol sydd ar gael dan y Contractau Gwahaniaeth. Edrychaf ymlaen at eich ymateb ar y pwyntiau hyn.

Byddwn yn cyhoeddi maes o law ymateb Llywodraeth Cymru i'n gwahoddiad am dystiolaeth ar brosiectau ynni adnewyddadwy dan berchnogaeth leol. Bydd y dystiolaeth a fydd yn dod i law yn llywio'r ffordd y byddwn yn cyflawni ein targed o weld 1GW o brosiectau cynhyrchu ynni dan berchnogaeth leol erbyn 2030, a'r disgwyliad y bydd gan bob prosiect ynni adnewyddadwy o leiaf un elfen dan berchnogaeth leol erbyn 2020.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Ystyriwn ei bod yn bosibl i fecanwaith y Contractau Gwahaniaeth sicrhau llawer mwy o fuddiannau i gymunedau'r DU. Mewn egwyddor, mae'r dystiolaeth mewn perthynas â chynigion i leoli prosiectau technoleg gwynt ar ynysoedd hefyd yn berthnasol i ddatblygiadau eraill. Byddwn hefyd yn fodlon rhannu'r dystiolaeth hon i helpu BEIS i ddatblygu ffordd o sicrhau bod cymunedau yn elwa ar brosiectau gwynt y Contractau Gwahaniaeth.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

**Lesley Griffiths AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs